# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 9fed o Ionawr 2025 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Dewi Thomas, Rhys Tudur, Tegid Jones, Miriam Williams, Delyth Parry, Darren Morley a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Anwen Jones, Dylan Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Gareth O.Davies, Aled Davies, a Delyth Parry.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5ed o Ragfyr 2024.**

3. **Cadeirydd yn llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Rhagfyr 2024.**

4. **Datgan buddiant personol – neb.**

5.**Comisiwn Cymunedau Cymraeg**- derbyniwyd ymateb gan Arweinydd Cyngor Gwynedd, sef y Cynghorydd Nia Jeffreys, yn dweud ei bod yn awyddus i weld y Gymraeg yn cadw ei thir ac yn ffynnu yn ein cymunedau.

"Mae Cyngor Gwynedd yn croesawu adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn edrych ymlaen at weld pa argymhellion a fydd Llywodraeth Cymru yn eu mabwysiadau. Unwaith y bydd ymateb y llywodraeth ar gael ac y byddwn yn gwybod pa argymhellion y bydd disgwyl i'r Cyngor eu gweithredu, byddwn yn eu trafod ymhellach, gan gynnwys dynodi ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol yng Ngwynedd". **Derbyn.**

6. **Arolwg o Etholaethau'r Senedd**

Derbyniwyd ebost yn dweud fod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig mewn perthynas â'r arolwg o Etholaethau'r Senedd yng Nghymru.
Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi a gellir ei weld ar ei gwefan.
Byddai'r Comisiwn yn croesawu unrhyw sylwadau yr hoffech ei gwneud ar y Cynigion Diwygiedig. Mae'r cyfnod ymgynghori o bedair wythnos yn dechrau ar 17 Rhagfyr 2024 ac yn cau ar 13 Ionawr 2025 a dylid anfon unrhyw sylwadau at ymgynghoriadau@cdffc.llyw.cymru neu'n ysgrifenedig at CDFfC, 4ydd Llawr, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Bydd y Comisiwn hefyd yn derbyn cyflwyniadau drwy ei porth ymgynghori yn https://senedd2026.arolygoncymru.cymru/.
Bydd y Comisiwn yn ystyried yn ofalus unrhyw sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn paratoi'r Adroddiad Penderfyniadau Terfynol. **Y Clerc i anfon sylwadau nad oes dim yn gyffredin yn ddiwyllianol yn yr ardal newydd o dan sylw. Bydd yn gwanio cyswllt a bydd pleidliau yn cael rhoi cynrychiolwyr yno. Mae Dwyfor Meirionnydd yn ardal o arwyddocâd ieithyddol ac mae hyn yn pery pryder mawr am barhad Cymreictod yr ardal.**

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**
a) Cais rhif: C24/1057/41/LL - **Gaerwen, Ynys, Cricieth.**
Gwaith peirianyddol i roi waliau a llawr concrid ar bwll biswail presennol. **Cefnogi**.

b) Cais rhif: C24/1097/41/LL - **Tyn Ffridd, Afonwen, Pwllheli.**
Cais ôl weithredol i newid defnydd i safle storio a thrwsio carafanau ynghyd ac adeiladu ffens a gosod llawr caled 'hardcore'. **Gwrthod y cais ar y sail ei fod yn ymlediad o safle diwydiannol i gefn gwlad agored. Dylai'r mater hefyd gael ei alw'r i bwyllgor oni bai fod bwriad i'w wrthod drwy bwerau dirprwyedig.**

c) Cais rhif: C24/1048/41/LL - **Cadair Elwa, Llangybi.**
Creu tanc slyri o dan adeilad amaethyddol presennol. **Cefnogi.**

8. **Sedd wag yn Ward Llanarmon** – ei drafod eto mis Chwefror.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**
a) **Coeden wedi syrthio ar wal Bedd Lloyd George** yn ystod y storm. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ac maent wedi trefnu i'w llifio a'i symud oddi ar y safle.

b) **Caerffynnon – problemau**. Derbyniwyd diweddariad gan Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru, yn sgil derbyn cwynion gan rai o'r tenantiaid. Cadarnhaodd ei bod yn parhau i weithredu yn unol â chynllun sydd wedi ei gytuno rhwng ADRA, Cyngor Gwynedd a'r Heddlu er mwyn rheoli'r sefyllfa. Roedd eisiau i'r gymuned wybod ei bod yn parhau i gyfarfod a thrafod gyda'r partneriaid yn fisol ac yn gwneud defnydd o'r pwerau sydd gan bob asiantaeth er mwyn rheoli'r sefyllfa. Os bydd unrhyw wybodaeth newydd byddant yn barod i gyfarfod ar frys er mwyn trafod ac ymateb i unrhyw sefyllfa.

10. **Rhoslan/Ynys**

11. **Chwilog**
a) **Draen o flaen Llys Elphin a Bodelen Chwilog angen ei glanhau** - Clerc eisioes wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.

b) **Bwthyn y Groesfan, Chwilog** – Adroddiad Archwilio Llifogydd yn dilyn 09.04.2024. Mae perchnogion Bwthyn y Groesfan yn ystyried opsiynau i leihau'r risg o lifogydd yn y dyfodol ac mae trafodaethau'n parhau gyda pherchnogion Rhosgyll Fawr ynglyn â gwneud gwaith posibl ar ei tir i ddargyfeirio dŵr llifogydd i'r cwrs dŵr gerllaw.
Roedd yr adroddiad yn cadarnhau "na ellir cael gwared yn llwyr â pherygl llifogydd ac mae gan unigolion gyfrifoldeb personol i fod yn ymwybodol o lefel y risg llifogydd lle maent yn byw, i gynllunio'n effeithiol i warchod eu hunain a'i eiddo rhag niwed llifogydd". **Derbyn er gwybodaeth.**

12. **Pencaenewydd/Sardis**
13. **Llangybi**
**Cae chwarae Llangybi** – pris i ail beintio a thacluso'r fainc – disgwyl pris.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.12.2024. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Cwmni Lightsource (Gelli Gron)** – wedi derbyn £5,276.67 ar 05.12.2024 sydd yn £138.50 yn fwy na llynedd.

16. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** – y Clerc wedi anfon ebost at Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Tramwy Dwyfor i wneud y cais.

17. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Mae hysbyseb wedi cael ei anfon i'w roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2024 o'r Ffynnon, y wefan ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2025.

18. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd Chwilog | Llogi'r Neuadd 07.11.24 a 05.12.2024 | **30.00** | | **30.00** | **30.00** |

19. Cyflog mis Rhagfyr 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2024<br>35 awr y mis x £17.79 = £622.65 | 622.65<br>Llai treth-<br>£124.60 =<br>**£498.05** | **498.05** | **498.05** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2024<br>£623.00 x 20% = £124.60 | **£124.60** | **124.60** | **124.60** |
| Costau swyddfa Clerc Rhagfyr 2024 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**
**20. Rhoslan** – Pont Rhydybenllyg – angen gofyn wrth Cyngor Gwynedd ystyried arafu traffig drwy osod lliw gwahanol melyn/hufen ar y lon cyn cyrraedd yn bont oherwydd fod cerbydau yn taro'r bont yn aml.

**21. Lloches Bws, Rhoslan** – cytuno i symud yr hysbysfwrdd i Langybi, oherwydd fod dwr yn mynd i hwnnw. Cwmni Cybi Cyf wedi cytuno i'w osod yn ddi-gost i'r Cyngor Cymuned.

**22. Llangybi i Llanarmon difrod eithaf sylweddol i'r llain ar y lôn rhwng Llangybi a Llanarmon yn dilyn y storm**, lle mae coed wedi disgyn gan adael tyllau mawr ar ochr y lôn mewn dau le.

Bydd angen penderfynu os mai ar y nos Iau **<u>06.02.2025</u>** fydd y cyfarfod nesaf, yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.